| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Y Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad** | **28 Chwefror 2013** |
| **Teitl** | **Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2013/14** |
| **Pwrpas** | **Cymeradwyo Datganiad Polisi Tâl yn unol ag Adran 28(i) Deddf Lleoliaeth 2011.** |
| **Awdur** | **Prif Weithredwr – Harry Thomas** |
| **Arweinydd Portffolio** | **Arweinydd y Cyngor – Y Cynghorydd Dyfed Edwards** |

1. **<u>CEFNDIR</u>**

1.1 Y llynedd, am y tro cyntaf, roedd rhwymedigaeth gyfreithiol ar bob Cyngor i fabwysiadu datganiad polisi tâl ar sail flynyddol. Yn unol â gofynion y ddarpariaeth statudol, swyddogaeth i'r Cyngor llawn ddylai hwn fod.

1.2 Pan wnaeth y Cyngor llawn fabwysiadu datganiad polisi tâl ar gyfer eleni ym mis Mehefin 2012, penderfynodd ofyn i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion adolygu cynaladwyedd y polisi tâl i'r dyfodol ac adrodd yn ôl i'r Cyngor llawn.

1.3 Cyfarfu'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion ar 13 Chwefror 2013 pan ystyriodd adroddiad gan y Prif Weithredwr. Cyn adolygu'r datganiad polisi tâl ar gyfer y flwyddyn nesaf, fe wnaeth y Pwyllgor ystyried y prif newidiadau strwythurol yr ymgymerwyd â hwy yn ystod y flwyddyn yn gyntaf ac fe asesodd goblygiadau'r newidiadau hyn ar ei bolisi tâl.

1.4 Roedd y newidiadau'n ymwneud â:-

(i) Dileu dwy swydd pennaeth gwasanaeth:-

- Pennaeth Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Pennaeth Gwasanaethau Darparu

A chreu swydd pennaeth gwasanaeth newydd: Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden. Golygodd y newid yma fod rhai o gyn gyfrifoldebau'r Pennaeth Gwasanaethau Darparu yn cael eu trosglwyddo i dri Phennaeth Gwasanaeth:-

- Gofal Cwsmer
- Addysg
- Priffyrdd a Bwrdeistrefol

(ii) Canlyniadau'r gofyn statudol i greu swyddogaeth Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth ar wahân y bu i'r Cyngor ei hychwanegu at gyfrifoldebau'r Pennaeth Strategol a Gwella.

1.5 Fel sy'n digwydd gyda swyddi eraill yn y Cyngor pan fo newid mewn cyfrifoldebau, arfarnwyd goblygiadau'r newidiadau hyn ar y lefelau tâl. Cawsant eu harfarnu'n annibynnol gan ddefnyddio'r fethodoleg ar gyfer arfarnu swyddi prif swyddogion a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2009.

1.6 Fe wnaeth y Pwyllgor dderbyn argymhellion y Prif Weithredwr, yn seiliedig ar yr arfarniad, na ddylai'r un o'r swyddi presennol dderbyn tâl ychwanegol ar gyfer y cyfrifoldebau newydd. Derbyniodd y Pwyllgor hefyd y dylid gosod cyflog y swydd newydd, Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden gan ddefnyddio'r un polisi (chwartel isaf) â'r swyddi cyfarwyddwyr a'r Pennaeth Addysg. Pan gymhwysir y polisi hwn i faint y swydd wedi'i harfarnu, mae gyfwerth â graddfa cyflog gydag uchafswm cyflog o £80,972. Mae'r arbediad cyffredinol i'r Cyngor yn sgil yr ailstrwythuro hwn a phe byddai'r raddfa gyflog yn cael ei mabwysiadu, dros £110,000 y flwyddyn.

## 2.0 **<u>POLISI TÂL AR GYFER 2013/14</u>**

2.1 Derbyniodd y Pwyllgor argymhellion y Prif Weithredwr y dylai'r meincnodau gwreiddiol gymhwyso i dâl Prif Swyddogion ar gyfer 2013/14 (h.y. y chwartel isaf a'r canolrif ar gyfer yr un lefel o swyddi) a hefyd bod yr ailraddio o dâl gwirioneddol i lefelau meincnod yn digwydd nesaf yn 2015/16.

2.2 Pan ystyrir yr argymhellion ym mharagraffau 1 a 2 mae'n arwain at y datganiad polisi tâl ar gyfer 2013/14 yn Atodiad 1.

## 3.0 **<u>CASGLIADAU'R PWYLLGOR</u>**

3.1 (a) Y dylid gosod tâl y swydd Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden newydd ar £80, 972 o 1 Medi 2012 ac adolygu'r sefyllfa ymhen 6 mis.

(b) Nad oes unrhyw newid i fandiau cyflog gweddill y Penaethiaid Gwasanaeth a effeithiwyd gan yr ailstrwythuro y llynedd.

(c) Nad oes unrhyw newid i'r polisi tâl cyffredinol am y flwyddyn nesaf yn nhermau'r lefelau meincnod h.y. lefel canolrif a chwartel isaf ar gyfer yr un swyddi.

(c) Bod yr ailraddio o dâl gwirioneddol i lefelau meincnod yn digwydd nesaf yn 2015/16.

(d) Y dylid awdurdodi'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i gadw'r polisi tâl dan arolwg gan wneud argymhellion i'r Cyngor fel bo'n briodol.

## 4.0 **<u>ARGYMHELLIAD</u>**

4.1 Bod y Cyngor yn derbyn argymhellion y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion ym mharagraff 3.0 ac yn mabwysiadu'r datganiad polisi tâl yn Atodiad 1 ar gyfer 2013/14.